cheir ganddo ef y ffurf lafar *chwithe*, *cyfell* yn gystal a'r ffurf hynaf *petheu gwelei*, a'r ffurf lenyddol ddiweddar *pethau*, *gwelai*. Yn y gair *bore* dyry *eu* (*boreu*) lle dylai -*e* fod; gwnaed hyn gan Dr. Morgan o'i flaen, ond cywirwyd y gair ym Meibl 1620, ac y mae 'n gywir yn y rhan fwyaf o'r Beiblau diweddarach. Nid oedd sicrwydd am y seiniau hyn gan na chedwid hwynt yn yr iaith lafar; ac nid yw Elis Wyn yn awdurdod arnynt, am nad yw'n dyst o'r gwahaniaeth rhyngddynt. A dyna yn y diwedd ydyw awdurdod hen ysgrifenwyr. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hon, nid ysgrifennai neb *peuth* yn lle *peth*; yn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oedd y gwahaniaeth yr un mor eglur yn y sill ddi-acen, ac nid oedd berygl i neb ysgrifennu *boreu* yn lle *bore*. Nid am eu bod yn ysgolheigion ieithyddol dyfnddysg y cymerir yr hen ysgrifenwyr yn awdurdod, ond am eu bod yn dystion byw o'r gwahaniaeth y ceisir ei gadw eto yn yr iaith lenyddol. Y duedd yn amser Elis Wyn oedd ysgrifennu 'r seiniau yr ydym ein hunain yn dystion o honynt; ond drwy ddysg Lewis Morris a Goronwy aethpwyd yn ol at yr hen ffurfiau llenyddol; ac os yw 'r rhain yn werth eu cadw y maent yn werth eu cadw 'n gywir. Y mae dau air cyffredin arall lle rhoddir *eu* neu *au* erbyn hyn yn lle *e*, sef *camre* a *godre*.

Un fantais bwysig o gyhoeddi gweithiau hen awduron yn eu sillebiaeth hwy eu hunain ydyw cynefino darllenwyr â'r dulliau gynt o ysgrifennu Cymraeg, rhag iddynt dybied nad oes ond mympwyon di-sail yn y cais a wneir i adfer yr iaith i'w hen burdeb.

mawr ni, meddei 'r llall; a ddywed e' ei Weddi cyn cyſcu? ebr y trydydd. Wrth iddynt ſôn am *Weddi*, mi a riddfenais ryw ochenaid tuac i fynu am faddeuant a help; a chynted y meddyliais, gwelwn ryw *Oleuni* o hirbell yn torri allan, oh mor brydferth! fel yr oedd hwn yn neſau, 'r oedd fy nghymdeithion i 'n tywyllu ac yn diflannu; a chwippyn dyma 'r *Diſclair* yn cyfeirio tros y Caſtell attom yn union; ar hyn gollyngaſant eu gafel, ac ar eu hymadawiad troeſant attai guwch uffernol; ac oni baſei i'r Angel fy nghynnal, baſwn digon mân er gwneud paſtai cyn cael daiar. Beth, eb yr Angel, yw dy neges di yma? Yn wîr, f' arglwydd ebr finneu, nis gwn i p'le yw yma, na pheth yw fy neges, na pheth wy fy hun, na pheth aeth a'm rhan arall i, yr oedd genni bedwar aelod a phen, a pha un ai gartre y gadewais, ai i ryw geubwll; canys cô 'genni dramwy tros lawer o geunentydd geirwon, y bwriodd y *Tylwyth-têg* fi, ys *têg* eu gwaith, nis gwn i Syr, pe crogid fi. Têg eb ef y gwnaethent â thi oni bai 'nyfod i mewn pryd ith achub o gigweinieu Plant Annwfn. Gan fod cymmaint dy awydd i weled *cwrs y Byd* bach, cês orchymyn i roi i ti olwg arno, fel y gwelit dy wallco 'n anfodloni i'th ſtâd a'th wlâd dy hunan. Tyrd gyda mi, neu dro, eb ef, a chyda 'r

gair,

gair, a hi 'n dechreu torri 'r wawr, f' a'm cippiodd i 'mhell bell tu ucha 'r Castell, ac ar scafell o gwmmwl gwyn gorphwysasom yn yr entrych, i edrych ar yr Haul yn codi, ac ar fy nghydymaith nefol oedd lawer discleiriach na'r Haul; ond bod ei lewyrch ef ar i fynu gan y llen-gêl oedd rhyngddo ac i wared. Pan gryfhaodd yr Haul rhwng y ddau ddisclair, gwelwn y Ddaiar fawr gwmpasog megis pellen fechan gron ymhell odditanom: Edrych yrwan, eb yr Angel, ac a roes i mi ddrychyspio amgen nac oedd genni fi ar y mynydd. Pan yspîais trwy hwn, gwelwn betheu mewn modd arall, eglurach nac erioed or blaen. Gwelwn un Ddinas anferthol o faintioli, à miloedd o Ddinasoedd a Theyrnasoedd ynddi; a'r Eigion mawr fel Llynn-tro o'i chwmpas, a moroedd eraill fel afonydd yn ei gwahanu hi 'n rhanneu. O hir graffu, gwelwn Hi yn *dair Stryd fawr* tros ben; a *Phorth* mawr discleirwych ymhen isa pob Stryd, a *Thwr* teg ar bob Porth, ac ar bob Twr yr oedd *Merch* landeg aruthr yn sefyll yngolwg yr holl Stryd; a'r tri Thwr o'r tu cefn i'r Caereu 'n cyrraedd at odre 'r Castell mawr hwnnw. Ar ôhyd i'r tair anferthol hyn, gwelwn *Stryd groes arall*, a honno nid oedd ond bechan a gwael wrth y lleill, ond ei bod hi 'n lanwaith, ac ar godiad uwch-law 'r Strydoedd eraill,

hebddynt: gwybydd ditheu yspryd angall, nad yw'r tair Twysoges hyn ond tair hudoles ddinistriol. Merched y Twysog *Belial*, a'u holl degwch a'u mwynder sy 'n serenni 'r Strydoedd, nid yw ond wynebiad ar wrthuni a chreulonder; mae 'r Tair oddimewn fel eu Tâd, yn llawn o wenwyn marwol. Och fi, ai possibl ebr fi 'n athrist iawn, ar glwyfo o'u cariad? Rhy wir ysywaeth, ebr ef. Gwŷch gennit y pelydru y mae'r tair ar eu haddolwyr; wel', ebr ef, mae yn y Pelydr accw lawer swyn ryfeddol, mae e'n eu *dallu* rhag gweled bâch; mae e'n eu *synnu* rhag ymwrando a'u perygl, ac yn eu *llosci* âthrachwant diwala am ychwaneg o hono, ac ynte 'n wenwyn marwol, yn magu ynddynt glefydon anescorol, na ddichon un meddyg, ie, nac angeu byth bythodd ei hiachâu, na dim oni cheir physygwriaeth nefol a elwir *edifeirwch*, i gyfog y drwg mewn pryd cyn y greddfo 'n rhybell, wrth dremio gormod arnynt. Pam, ebr fi, na fynn *Belial* yr addoliant iddo 'i hunan? Ond yr un peth yw, eb ef: mae'r hên Gadno yn cael ei addoli yn ei ferched, oblegid tra bo dyn ynglŷn wrth y rhain neu wrth un o'r tair, mae e'n siccr tan nôd *Belial*, ac yn gwisco 'i lifrai ef. Beth, ebr fi, y gelwch i'r tair Hudoles yna? Y bella draw, eb ef, a elwir *Balchder*, Merch hyna *Belial*; yr ail, yw

*Pleser*;

*Pleser*; ac *Elw* ydy 'r nesa yma; y Tair hyn yw 'r *Drindod* y mae 'r *Byd* yn ei addoli. Atlygaf henw 'r Ddinas fawr wallwfus hon, ebr fi, os oes arni well henw na *Bedlam* fawr? Oes ebr ef, hi a elwir y *Ddinas ddihenydd*. Och fi, ai Dynion dihenydd, ebr fi, yw 'r cwbl sy ynddi? Y cwbl oll, ebr ynte, oddieithr ymbell un a ddiango allan i'r Ddinas ucha fry, sy tan y Brenin *IMMANUEL*. Gwae finneu a'm heiddo pa fodd y diangant, a hwythe 'n llygadrythu fyth ar y peth sy 'n eu dallu fwyfwy, ac yn eu hanreithio yn eu dallineb? Llwyr amhossibl, ebr ynte, fyddei i undyn ddianc oddiyma, oni bai fod *IMMANUEL* oddifry yn danfon ei Gennadon hwyr a boreu iw perswadio i droi atto Ef ei hunion Frenhin oddiwrth y Gwrthryfelwr, ac yn gyrru hefyd i ymbell un anrheg o ennaint gwerthfawr a elwir *ffydd*, i iro 'u llygaid; a'r sawl a gaffo 'r *gwir* ennaint hwnnw, canys mae *rhîth* o hwn fel o bob peth arall yn y *Ddinas ddihenydd*, ond pwy bynnac a ymiro â'r *iawn* ennaint, fe wêl ei friwieu ai wallco, ac nid erys yma funud hwy pe rhoe *Belial* iddo 'i dair Merch, iè, neu 'r bedwaredd, sy fwya' oll, am aros. Beth y gelwir y Strydoedd mawr hyn, ebr fi? Gelwir, ebr ynte, bob un wrth henw 'r Dwysoges sy 'n rheoli ynddi; Stryd *Balchder* yw 'r bella, y ganol Stryd *Pleser*, y nesa

Stryd

Stryd yr *Elw*. Pwy ertolwg, ebr fi, ſy 'n aros yn y Strydoedd yma? pa Iaith? pa Fſordd? pa Genedl? Llawer, ebr ef, o bob Iaith, a Chrefydd, a Chenedl tan yr Haul hwn, ſy 'n byw ymhôb un o'r Strydoedd mawr obry; a llawer un yn byw ymhôb un o'r tair Stryd ar gyrſieu, a phawb neſa 'r y gallo at y Porth: a mynych iawn y mudant heb fedru ſawr aros yn y naill, gan ddäed ganddynt Dwyſoges Stryd arall: A'r hên *Gadno* tan ei ſcafell yn gado i bawb garu ei ddewis, neu 'r tair os mynn, ſiccra' oll yw ef o hono. Tyrd yn nês attynt, eb yr Angel, ac a'm cippiodd i wared yn y llen-gêl, trwy lawer o ſwrllwch diffaith oedd yn codi o'r Ddinas, ac yn Stryd *Balchder* deſcynnaſom ar ben 'hangle o Blaſdy penegored mawr, wedi i'r Cŵn a'r Brain dynnu ei Lygaid, a'i berchenogion wedi mynd i *Loegr*, neu *Frainc*, i chwilio *yno* am beth a ſaſei can haws ei gael *gartre*, felly yn lle 'r hên Dylwyth Iuſengar daionus gwladaidd gynt, nid oes rwan yn cadw meddiant ond y modryb Dylluan *hurt*, neu Frain *rheibus*, neu Biod *brithfeilchion*, neu 'r cyffelyb i ddadcan *campeu* y perchenogion preſennol. Yr oedd yno ſyrdd o'r fâth blaſau gwrthodedig, a allaſei oni bai *Falchder*, fod fel cynt yn gyrchſa goreugwyr, yn Noddſa i'r gweiniaid, yn Yſcol Heddwch a phob Daioni, ac yn fendith i ſil o Dai

fethodd genni ddyfeiſio beth oedd hi, gofynnais; O ebr 'ynghyfaill, un yw hon ſy â'i chynnyſcaeth oll yn y golwg, etto gweli faint ſy o rai ffolion yn ei cheiſio, a'r gwaela 'n abl, ſy arni hi o gaffaeliad; hitheu *ni fynn a gaffo ni cheiff a ddymuno*, ac ni ſieryd ond a'i gwell am ddywedyd o'i Mamm wrthi nad oes un gamp waeth ar Ferch ieuanc na bod yn *ddiſalch* wrth garu. Ar hyn dyma baladr o ŵr a faſei 'n Alderman ac mewn llawer o ſwyddeu yn dyfod allan odditanom, yn lledu ei eſcill, megis i hedeg, ac ynteu prin y gallei ymlwybran o glun i glun fel ceffyl a phwn, o achos y *gêſt* a'r *Gowt* ac amryw glefydon bonheddigaidd eraill; er hynny ni cheiti ganddo ond trwy ffafr fawr un cibedrychiad, a chofio er dim ei alw wrth ei holl *ditlau* a'i *ſwyddau.* Oddi ar hwn troiſ yngolwg tu arall i'r Stryd lle gwelwn glamp o bendefig ieuanc a lliaws o'i ôl yn dêg ei wên, a llaes ei foes i bawb a'i cyfarfyddei. Rhyfedd, ebr fi, fod hwn, a hwn accw 'n perthyn i'r un Stryd. O, yr un Dwyſoges *Balchder* ſy'n rheoli 'r ddau, ebr ynteu: Nid yw hwn ond dywedyd yn dêg am ei neges, hèl clôd y mae e 'r awron, ac ar fedr wrth hynny ymgodi i'r Swydd ucha 'n y Deyrnas; hawdd ganddo wylo wrth y bobl, faint yw eu cam gan ddrwg ſwyddogion yn eu gorthrymmu; etto ei *fawrbâd* ei *hun*, nid

ddwn i'n cael gwrando mo 'i resymmau angylaidd ef yn iawn, gan y pendwmpian yr oeddynt hyd y Stryd lithrig yma bob yn awr; a gwelwn rai âg yscolion yn dringo 'r Twr, ac wedi mynd i'r ffon ucha, syrthient bendramwnwgl i'r gwaelod: i ba le y mae 'r ynfydion accw 'n ceisio mynd, ebr fi? i rywle digon uchel, eb ef, ceisio y maent dorri trysordy 'r Dwysoges. Mi wrantaf yno le llawn, ebr fi. Oes, eb ef, bob peth a berthyn i'r Stryd yma, i'w rhannu rhwng y trigolion: Pob mâth o arfeu *rhyfel* i orescyn ac ymledu; pob mâth o arfeu *bonedd,* banerau, scwtsiwn, llyfreu acheu, gwersi 'r hynafiaid, cywyddeu; pob mâth o wiscoedd gwychion, storiâu gorchestol, drychau ffeilsion; pob lliwieu a dyfroedd i deccâu 'r wynebpryd; pob uchel-swyddau a thitlau: ac ar fyrr iti, mae yno bob peth a bair i ddyn dybio 'n well o hono 'i hun, ac yn waeth o eraill nac y dylei. Prif Swyddogion y Trysordy hwn yw Meistred y Ceremoniau, Herwyr, Achwyr, Beirdd, Areithwyr, Gwenieithwyr, Dawnswyr, Taelwriaid, Pelwyr, Gwniadyddesau a'r cyffelyb. O'r Stryd fawr hon, ni aethom i'r nesa lle mae 'r dwysoges *Elw* yn rheoli, Stryd lawn a chyfoethog aruthr oedd *hon*, etto nid hanner mor wych a glanwaith a Stryd *Balchder*, na'i phobl hanner mor ehud wyneb-uchel, canys dynion

fath ymwthio ac ymdaeru, a wnaeth i mi feddwl fod rhyw ffrae gyffredin ar droed, nes gofyn i'm cyfaill beth oedd y matter; Tryfor mawr tros ben fy'n y Tŵr yna, eb yr Angel, a'r holl ymgyrch fy i ddewis Tryforwr i'r Dwyfoges yn lle 'r Pâp a drowyd allan o'r Swydd. Felly nineu aethom i weled y '*Lecfiwn.* Y Gwŷr oedd yn fefyll am y Swydd oedd y *Stiwardiad*, y *Llogwyr*, y *Cyfreithwyr* a'r *Maerfiandwyr*, a'r cyfoethocca o'r cwbl a'i cai: (oblegid pa mwya fy gennit, mwya gei ac y geifi, rhyw *ddolur diwala* fy'n perthyn i'r Stryd.) Gwrthodwyd y Stiwardiaid y cynnyg cynta, rhag iddynt dlodi 'r holl Stryd, ac fel y codafeint eu Plafau ar furddynnod ei Meiftred, felly rhag iddynt o'r diwedd droi 'r Dwyfoges ei hun allan o feddiant. Yna rhwng y tri eraill yr aeth y ddadl; mwy o Sidaneu oedd gan y Marfiandwyr, mwy o Weithredoedd ar Diroedd gan y Cyfreithwyr, a mwy o Godeu llownion, a Bilieu a Bandieu gan y Llogwyr. Hai, ni chyttunir heno, eb yr Angel, tyrd ymaith, cyfoethoccach yw'r Cyfreithwyr na'r Marfiandwyr, a chyfoethoccach yw'r Llogwr na'r Cyfreithwyr, a'r Stiwardiaid na'r Llogwyr, a *Belial* na'r cwbl, canys ef a'u pieu hwy oll a'u petheu hefyd. I ba beth y mae 'r Dwyfoges yn cadw 'r Lladron hyn o'i chylch, ebr fi? Beth gymmwyfach, eb ynte, a hi 'n Ben-

dymaith fy nghippio i 'n ddigllon o'r Llŷs penchwiban yma, i Dryſordy 'r Dwyſoges (oblegid ni aem lle chwenychem er na doreu na chloieu.) Yno gwelem fyrdd o Ferched glân, pôb diodydd, ffrwythydd, dainteithion, pob rhyw offer a llyfreu cerdd dafod a thant, telyneu, pibeu, cywyddeu, caroleu, &c. pôb mâth o chwareuon tawlbwrdd ffriſtial difieu, cardieu, &c. pôb lluniéu gwledydd, a threfi, a dynion, a dyfeiſieu, a chaſtieu digrif: pôb dyfroedd, pêr-arogleu, a lliwieu, a ſmottieu i wneud yr wrthun yn lân, a'r hên i edrych yn ieuanc, ac i ſawyr y buttain a'i heſcyrn pwdr fod yn beraidd tros y tro. Ar fyrr, yr oedd yno bôb mâth o *gyſgodion* pleſer, a *rhîth* hyfrydwch: ac o ddywedyd y gwir, ni choelia 'i na walliaſei 'r fan yma finneu, oni baſei i'm Cyfeill yn ddiymannerch fy nghipio i ymhell oddiwrth y tri Thŵr hudol i ben ucha 'r Strydoedd, a'm deſcyn i wrth gaſtell o *Lys* anferthol o faint, a thirion iawn yr olwg cynta, ond gwael a gwrthun arſwydus o'r tu pella, etto ni welid ond yn anhawdd iawn mor tu gwrthun; a myrdd o ddryſeu oedd arno a'r holl ddoreu 'n wŷch y tu allan, ond yn bwdr y tu mewn. Attolwg, f' Arglwydd, ebr fi, os rhyngai 'ch bodd p'le yw 'r fan ryfeddol hon? Hwn, ebr ef, yw Llŷs ail Ferch *Belial*, a elwir *Rhagrith:* Yma mae hi 'n cadw

rhwydd, a balchder, a thywyllwch dudew; er maint y ſoniant am eu *Goleuni oddimewn*, nid oes ganddynt gymaint a *Spectol* natur pe ſy gan y digrêd y welaiſt gynneu. Oddiwrth y cŵn mudion digwyddodd i ni droi i Eglwys fawr benegored, a myrdd o eſcidieu yn y porth, wrth y rhain deellais mai teml y *Tyrciaid* ydoedd; nid oedd gan y rhain ond *Spectol* dywyll a chymyſclyd iawn a elwid *Alcoran*; etto trwy hon 'r oeddynt fyth yn ſpio 'mhen yr Eglwys am eu Prophwyd a addawſei ar ei air celwydd, ddychwel i ymweled â hwynt er's talm, ac etto heb gywiro. Oddiyno 'r aethom i Eglwys yr *Iddewon*, 'r oedd y rhain hwythe 'n methu cael y ffordd i ddianc o'r Ddinas ddihenydd, er bod Spectol lwydoleu ganddynt, am fôd rhyw huchen wrth ſpio 'n dyfod tros eu llygaid eiſieu i hiro a'r gwerthfawr ennaint, *ffydd*. Yn neſa 'r aethom at y *Papiſtiaid*; dyma, eb yr Angel, yr Eglwys ſy 'n *twyllo'r Cenhedloedd!* Rhagrith a adeiladodd yr Eglwys yma ar ei chôſt ei hun. Canys mae 'r Papiſtiaid yn cynnwys, ie 'n gorchymyn na chadwer llw â Heretic, er darfod ei gymmeryd ar y Cymmun: O'r Ganghell ni aethom trwy dylleu cloieu i ben rhyw gell neilltuol, llawn o ganhwylleu ganol dydd goleu, lle gwelem Offeiriad wedi eillio 'i goryn yn rhodio, ac megis yn diſgwil rhai atto; yn

y

y man, dyma globen o Wraig a Llances lân o'i hôl, yn mynd ar ei glinieu o'i flaen ef, i gyfadde'i phechodeu: Fy nhâd yſprydol ebr y Wreigdda, mae arna 'i faich rhydrwm ei oddef, oni châf eich trugaredd iw yſcafnhau; mi briodais un o Eglwys *Loegr*; ac, pa beth, ebr y Corynfoel, priodi Heretic! priodi Gelyn! nid oes fyth faddeuant iw gael; ar y gair hwnnw hi a leſmeiriodd, ac ynte 'n bugunad melltithion arni, och a phe ſy waeth, ebr hi, pan ddadebrodd, mi a'i lleddais ef! O, ho! a leddaiſti ef, wel'dyma rywbeth at cael cymmod yr Eglwys, 'r wyfi 'n dywedyd itti, oni bai ladd o honot ef, ni chawſit fyth ollyngdod, na phurdan, ond mynd yn union i Ddiawl wrth blwm. Ond p'le mae 'ch Offrwm chwi 'r Faeden ebr ef, tan 'ſcyrnygu. Dyma, ebr hi, ac eſtynnodd gryn-god o arian; wel, 'ebr ynte, 'bellach mi wnâ 'ch cymmod, eich Penyd yw bôd byth yn weddw, rhag i chwi wneud drwg-Fargen arall. Pan aeth hi ymaith, dyma 'r Forwyn yn dyfod ymlaen i draethu ei chyffes hitheu: Eich pardwn y Nhâd-cyffeſwr ebr hi, mi a feichiogais, ac a leddais fy Mhlentyn. Têg iawn yn wîr, ebr y Cyffeſwr, a phwy oedd y Tâd? Yn wîr, un o'ch Monachod chwi, ebr hi; iſt, iſt, eb ef, dim anair i Wyr yr Eglwys: Ple mae 'r iawn i'r Eglwys ſy gennych? Dyma, ebr hitheu,

hitheu, ac a estynnodd iddo euryn. Rhaid i chwi edifarhau, a'ch Penyd yw gwilied wrth fy ngwelu i heno, ebr ef, tan gîlwenu arni hi. Yn hyn, dyma bedwar o rai moelion eraill yn llusco dynan at y Cyffeswr, ac ynte 'n dyfod mor 'wllyscar ac at grogpren. Dyma i chwi geneu, ebr un o'r pedwar, i ddwyn ei benyd am ddadcuddio dirgelion yr Eglwys Gatholic. Pa beth, ebr y Cyffeswr, tan edrych ar ryw siêr ddu oedd yno gerllaw? Ond cyffesa, silein, beth a ddywedasti? Yn wîr, eb y truan, cymydog a ofynnodd i mi, a welswn i'r *Eneidieu* 'n griddfan tan yr Allor *Ddygwyl y Meirw*, minneu ddywedais, glywed y llais, ond na welswn i ddim. Aiè, Syre, dywedwch y cwbl, ebr un o'r lleill. Ond mi attebais, ebr ef, glywed o hono 'i mai gwneud castieu 'r ŷ chwi, â ni 'r annllythrennog, nad oes yn lle Eneidieu ond Crancod y Môr yn 'scyrlwgach tan y carbed. O Fâb y Fall, o Wyneb y Felltith! ebr y Cyffeswr, ond ewch ymlaen Fastiff; ac mai weir oedd yn troi delw St. *Pedr*, ac mai wrth weir yr oedd yr Yspryd Glân yn descyn o lofft y grôg ar yr Offeiriad. O etifedd Uffern! eb y Cyffeswr, hai, hai, cymrwch ef Boenwyr, a thaflwch ef i'r Simnei fyglyd yna, am ddywedyd chwedleu. Wel dyma i ti 'r Eglwys a fyn *Rhagrith* ei galw 'n Eglwys Gatholic, ac mai rhain yw 'r

unic

Ond nid oes yn eich Dinas chwi ddim o'r fâth betheu iw cael. Oblegid pwy ſy yma 'n *fodlon* iw ſtât? *uwch*, *uwch* y cais pawb o Stryd *Balchder*; moes, moes ychwaneg, medd pawb yn Stryd yr *Elw*; melus, moes etto yw llais pawb yn Stryd *Pleſer*. Ac am *Lonyddwch*, p'le mae? a phwy ſy 'n ei gael? Os Gŵr *mawr*, dyna weniaith a chynfigen ar ei ladd; os *tlawd*, hwdiwch bawb iw ſathru a'i ddiyſtyru. Os mynni godi, dyro dy fryd ar fynd yn Ddyfeiſiwr, os mynni barch bydd Ffroſtiwr neu Rodreſwr. Os byddi Duwiol yn cyrchu i'r Eglwys a'r Allor, gelwir di 'n Rhagrithiwr, os peidi, dyna di 'n Anghriſt ne' 'n Heretic: Os llawen fyddi, gelwir di 'n wawdiwr: os diſtaw, gelwir di 'n goſtog gwenwynllyd; os dilyni oneſtrwydd, nid wyti ond ffŵl di-ddeunydd; os trwſiadus, balch; os nadè, mochyn; os llyfn dy leferydd, dyna di 'n ffals, neu ddihiryn anhawdd dy ddirnad; os garw, cythrel trahaus anghydfod. Dyma 'r B Y D yr ŷch i 'n ei fawrhau, ebr ef, ac ertolwg cymrwch i chwi fy rhann i o hono, ac ar y gair fe a ymeſcydwodd oddiwrthynt oll ac ymaith âg e 'n ddihafarch at y Porth cyfyng, ac heb waetha i'r cwbl tan ymwthio f' aeth drwodd a ninne' o'i ledol; a llawer o Wŷr duon ar y caereu o ddeutu 'r Porth yn gwadd y Dyn ac yn ei ganmol. Pwy,

ebr

Caſtell i rwyſtro iddynt weled eu Deſtryw nes mynd iddo. Yn hyn dyma drwp o bobl o Stryd *Balchder* yn ddigon hŷ 'n curo wrth y Porth, ond yr oeddynt oll mor warſyth nad aent byth i le mor iſel heb ddiwyno 'u perwigeu a'u cyrn, felly hwy a rodiaſant yn eu hol yn o ſurllyd. Ynghynffon y rhai'n daeth attom ni ſagad o Strŷd *Elw*; ac, ebr un, ai dyma Borth y bywyd? iè, ebr y Gwiliwr oedd uwch ben. Be' ſy iw wneud, ebr ef, at ddyfod trwodd? darllenwch o ddeutu 'r drws, cewch wybod; darllennodd y Cybydd y Dêg-Gorchymmyn i gyd troſtynt; pwy, ebr ef, a ddyweid dorri o honofi un o'r rhain? ond pan edrychodd e'n uwch a gweled, *Na cherwch y Byd, na'r petheu ſy 'n y Byd,* fe ſynnodd, ac ni fedrei lyncu mo'r Gair caled hwnnw; 'r oedd yno un piglas cenfigennus a droes yn ôl wrth ddarllen, *Câr dy Gymydog fel ti dy hun*; yr oedd yno Gweſtiwr ac Athrodwr a chwidr-droiſant wrth ddarllen, *Na ddwg gam Dyſtioliaeth*; pan ddarllenwyd, *Na Lâdd*, nid yma i ni, eb y Phyſygwyr. I fod yn fyrr, gwel ei bawb rywbeth yn ei flino, ac felly cyd-ddychwelaſant oll i 'ſtudio 'r pwynt; ni welais i 'r un etto yn dyfod wedi dyſcu ei wers, ond yr oedd ganddynt gymaint o Godeu a Scrif'nadeu 'n dynn o'u cwmpas nad aethent fyth trwy grau mor gyfyng pe ceiſiaſent.

elwir *Ffynnon Edifeirwch*; uwch ben gwelwn yn scrifennedig, *Dyma Borth yr Arglwydd*, &c. Yr oedd y Porth a'r Stryd hefyd yn lledu ac yn yscafnhau fel yr elid ymlaen; pan aethom ronyn uwch i'r Strŷd, clywn lais ara 'n dywedyd om hôl, *Dyna 'r Ffordd, rhodia ynddi.* Yr oedd y Stryd ar orufynu, etto 'n bur lân ac union, ac er nad oedd y tai ond îs yma nac yn y Ddinas *ddihenydd*, etto 'r oeddynt yn dirionach, os oes yma lai o feddianneu mae 'ma hefyd lai o ymryson a gofalon; os oes llai o seigieu, mae llai o ddolurieu; os oes llai o drŵst, mae hefyd lai o dristwch, a mwy 'n siccr o wir lawenydd. Bu ryfedd genni'r Distawrwydd a'r *Tawelwch* hawddgar oedd yma wrth i wared. Yn lle 'r tyngu a'r rhegu, a'r gwawdio, a phutteinio, a meddwi; yn lle balchder ac oferedd, y syrthni 'n y naill cwrr, a thrawsni 'n y cwrr arall; iè, 'n lle 'r holl ffrio ffair, a'r ffrôst, a'r ffrwst, a'r ffrwgwd oedd ynó 'n pendifadu dynion yn ddibaid, ac yn lle 'r aneirif ddrygeu gwastadol oedd isod; Ni weliti yma ond sobrwydd mwynder a sirioldeb, heddwch a diolchgarwch; Tosturi, diniweidrwydd a bodlonrhwydd yn eglur yn wyneb pôb Dyn; oddieithr ymbell un a wylei 'n ddistaw o frynti fod cŷd yn Ninas y Gelyn. Nid oedd yma na châs, na llid, ond i *bechod*, ac yn siccr o orchfygu hwnnw, dim ofn ond rhag digio'u

ſa 'r ddinas a'r Adeilad hon, er y gŵyr e'n hên iawn, fod ei Cheidwad hi 'n anorchfygol. Ertolwg, ebr fi, f'Arglwydd a gawn i neſau i gael manylach golwg ar y Brenhinlle godidog hwn? canys cynneſaſei nghalon i wrth y lle (er y golwg cynta,) Cei 'n hawdd, eb yr Angel, oblegid yna mae fy lle a'm ſiars a'm gorchwyl inneu. Pa neſa yr awn atti, mwyfwy y rhyfeddwn uched, gryfed a hardded, laned a hawddgared oedd pob rhan o honi, gywreinied y gwaith a chariaduſed y defnyddieu, *Craig* ddirfawr, o waith a chadernid anrhaethawl oedd y Sylfaen, a Meini bywiol ar hynny wedi eu goſod a'u cyſſylltu mewn trefn mor odidog nad oedd boſſibl i un maen fod cyn hardded mewn unlle arall ac ydoedd e'n ei le ei hun. Gwelwn un rhan o'r *Eglwys* yn tâflu allan yn *Groes* glandeg a hynod iawn, a chanfu 'r Angel fi 'n ſpio arno, a adwaenoſti y Rhan yna, ebr ef? ni wyddwn i beth i atteb. Dyna *Eglwys Loegr*, ebr ef, mi gyffrois beth, ac wedi edrych i fynu, mi welwn y Frenhines *Ann* ar ben yr Eglwys, a Chleddy 'mhôb llaw, un yn yr aſſwy a elwid *Cyfiawnder* i gadw ei deiliaid rhag *Dynion* y *Ddinas ddihenydd*, a'r llall yn ei llaw ddeheu iw cadw rhag *Belial* a'i Ddrygau *Yſprydol*, hwn a elwid *Cleddy 'r Yſpryd*, neu Air Duw, o tan y Cleddyf *aſſwy* 'r oedd Llyfr *Statut Loegr*, tan y llall 'r oedd

oedd *Beibl* mawr. Cleddy 'r Yspryd oedd danllyd ac anferthol o hŷd, fe laddei 'mhellach nac y cyffyrddei 'r llall. Gwelwn y Twysogion eraill â'r un rhyw arfeu 'n amddeffyn ei rhan hwytheu o'r Eglwys: Eithr tecca gwelwn i Rann fy Mrenhines fy hun a gloewa 'i harfeu. Wrth ei deheulaw hi, gwelwn fyrdd o rai duon, Archescobion, Escobion a Dyscawdwyr yn cynnal gydâ hi yn *Nghleddy 'r Yspryd:* A rhai Sawdwyr, a Swyddogion ond ychydig o'r Cyfreithwyr oedd yn cyd-gynnal yn y Cleddyf arall. Cês gennad i orphwyso peth wrth un o'r dryseu gogoneddus, lle 'r oedd rhai 'n dyfod i gael braint yn yr *Eglwys Gyffredin*, ac Angel tàl yn cadw 'r drws a'r Eglwys oddi mewn mor oleu dambaid, nad oedd wiw i Ragrith ddangos yno mo'i hwyneb, etto hi ymddangosei weithiau wrth y drŵs er nad aeth hi 'rioed i mewn. Fel y gwelais i o fewn chwarter awr, dyma *Bapist* oedd yn tybio mai 'r Pâp a pioedd yr *Eglwys Gatholig*, yn cleimio fod iddo ynte fraint. Be sy gennych i brofi 'ch braint, ebr y Porthor? Mae genni ddigon, ebr hwnnw o *Draddodiadeu*'r *Tadau* ac *Eisteddfodau* 'r Eglwys, ond pam y rhaid i mi fwy o siccrwydd, ebr ef na *gair y Pâp* sy 'n eiste 'n y Gadair ddisiomedig? Yna 'r egorodd y Portholwyth o feibl dirfawr o faint; Dyma, ebr ef, ein hunic Lyfr *Statut*

ni

rio o'r Pyrth isa at yr Eglwys Gatholic; ac oni bai fod yn llaw pawb darian i dderbyn y piccellau tanllyd, a bod y Graig sylfaen yn rhygadarn i ddim fannu arni gwnelsid ni oll yn un goelceth. Ond och! nid oedd hyn ond *Prolog* neu dammeid prawf wrth oedd i galyn: Oblegid ar fyrr, dyma 'r tywyllwch yn mynd yn saith dduach a *Belial* ei hun yn y cwmmwl tewa, a'i benmilwyr daiarol ac uffernol o'i ddeutu, i dderbyn ac i wneud ei wllys ef, bawb o'r neilltu. Fe roesei ar y *Pâp* a'i Fab arall o *Ffrainc* ddinistrio Eglwys *Loegr* a'i Brenhines, ar y *Twrc* a'r *Moscowiaid* daro y rhanneu eraill o'r Eglwys a lladd y bobl, yn enwedig y Frenhines a'r Twysogion eraill, a llosci 'r *Bibl* yn anad dim. Cynta gwaith a wnaeth y Frenhines a'r Seinctieu eraill oedd droi ar eu glinieu, ac achwyn eu cam wrth Frenin y Brenhinoedd yn y geirieu yma, *Mae estyniad ei adenydd ef yn lloneid lled dy dir di oh* IMMANUEL! *Is.* 8. 8. yn ebrwydd dyma lais yn atteb, *Gwrth'nebwch Ddiawl ac fe ffy oddi wrthych*; ac yna dechrueodd y maes galluocca a chynddeiriocca' fu' rioed ar y ddaiar; pan ddechreuwyd gwyntio *Cleddy'r Yspryd*, dechruodd *Belial* a'i luoedd uffernol wrthgilio, yn y man dechreuodd y *Pâp* lwfrhau, a *Brenin Ffrainc* yn dàl allan, ond yr oedd ynte ymron digallonni, wrth weled y Frenhines a'i deiliaid

liaid mor gyttunol, ac wedi colli ei Longeu a'i Wŷr o'r naill tu, a llawer oi ddeiliaid yn gwrthryfela o'r tu arall; a'r *Twrc* ynte 'n dechreu llaryeiddio: yn hyn, och! mi welwn f' anwyl gydymaith yn ſaethu oddiwrthifi i'r entrych, at fyrdd o Dwyſogion gwynion eraill, a dyna 'r pryd y dechreuodd y *Pâp* a'r Swyddogion daiarol eraill lechu a llewygu, a'r Penaethiaid uffernol ſyrthio o feſur y myrddiwn, a phob un cymaint ei ſŵn yn cwympo (i'm tŷb i) a phe ſyrthiaſei fynydd anferth i eigion y môr. A rhwng y ſŵn hwnnw a chyffro goll fy nghyfeill mineu a ddeffrois om cŵſc; a dychwelais o'm llwyr anfodd i'm tywarchen drymluog, a gwyched hyfryded oedd gael bod yn Yſpryd *rhydd*, ac yn ſiccr yn y ſath *gwmnhi* er maint y perygl. Ond erbyn hyn, nid oedd genni nêb i'm cyſſuro ond yr *Awen*, a honno 'n lled-ffrom, prin y cês ganddi frefu i mi y hyn o Rigymmeu ſy 'n canlyn.

## *Ar fesur* Gwêl yr Adeilad.

I.

*GWEL ddyn, Adeilad hyfryd*
*O'r Llawr i'r Nenn yn unud*
*Daiarfyd dirfawr,*
*Ei Phenfaer a'i Pherchennog*
*Yw 'r Brenin hollalluog*
*A'i Llywydd tramawr;*
*Y Byd*
*Ei Gaer a'i gyrreu i gyd;*
*O Dô'r Sêr cannaid*
*Hyd Farth, y 'Scrubliaid,*
*Pysc ac ymlusciaid,*
*A'r hediaid fwy na rhi,*
*A roed, ô Ddyn! yn Ddeilied,*
*Er teyrnged fach, i ti:*
*I Ddyn*
*Ac ynte' iddo 'i hun,*
*Y gwnaeth* Jehofa,
*Yr Adail yma,*
*Fel* ail-Nef *leia*
*Tan lawen Heulwen hâ,*
*A'r cwbl, eitha terfyn*
*A wyddei Ddyn oedd* ddâ.

II.

II.

*Ond cynta blyssiodd wybod*
*Y* drŵg, *a chael o Bechod*
*Gynnwysiad bychan,*
*Hi aeth yn anferth Gawres,*
*Gwae ddynion faint Gwyddanes*
*I ddiw'no 'r cyfan:*
*Pob rhann*
*O'r Adail aeth yn wann,*
*Mae 'r* ail *a'r* Seler,
*Trwy frâd y Dyfnder,*
*Yn crynu 'n sceler*
*Mewn llawer llesmer llêsc* ;
*A'r* Barth *perllannog llownwyn*
*Heb ddwyn ond chwyn a hêsc.*
*Mae 'r* Gaer
*A'r* Murieu *Cleimieu claer,*
*A'r* Tô, *ar ddadmer,*
*Er maint eu cryfder*
*Anfeidrol uchder,*
*A'u gwychder frithder fry* ;
*Mae 'r* Dreigieu *yn darogan*
*Fod peryg' tân yn Ty.*

III.

*Gwel ddyn, Adeilad fawrwych,*
*O'r Eigion mawr i'r Entrych*
*Ar untroed embyd,*
*Maer 'r Llawr i gyd ar d' olwng*
*Maluriwyd hwn hyd Annwn* ,
*Yn donnen ddybryd:*

# I I.

## *Gweledigaeth* Angeu *yn ei Frenhinllys iſa.*

PAN oedd *Phœbus* un-llygeidiog ar gyrraedd ei eithaf bennod yn y deheu, ac yn dàl gŵg o hirbell ar *Brydain* fawr a'r holl Ogledd-dir; ryw hirnos Gaia dduoer, pan oedd hi 'n llawer twymnach yn nghegin *Glynn-cywarch* nac ar ben *Cadair Idris*, ac yn well mewn ſtafell glŷd gydâ chywely cynnes, nac mewn amdo ymhorth y ſonwent; myfyrio 'r oeddwn i ar ryw ymddiddanion a faſei wrth y tân rhyngo'i a Chymydog, am *fyrdra hoedl Dyn*, a ſiccred yw i bawb farw, aç anſiccred yr amſer; a hyn newydd roi 'mhen i lawr ac yn llêd-effro, mi glywn bwys mawr yn dyfod arnai 'n lledradaidd o'm coryn i'm ſowdl, fel na allwn ſymmud bŷs llaw, ond y tafod yn unic, a gwelwn megis Mâb ar fy nwyfron, a Merch ar

ar gefn hynny. Erbyn craffu, mi adwaenwn y Mâb wrth ei arogleu trwm a'i gudynneu gwlithog a'i lygaid môl-glafaidd mai fy Meiftr *Cwsc* ydoedd. Ertolwg, Syr, ebr fi, tan wichian, beth a wneuthum i'ch erbyn pan ddygech y wyddan yna i'm nychu? Ift, ebr ynte, nid oes yma ond fy chwaer *Hunlle*, mynd yr ŷm ni 'n dau i 'mweled a'n brawd *Angeu*: eifieu trydydd fy arnom, a rhag i ti wyrth'nebu daethom arnat (fel y bydd ynte') 'n ddirybudd. Am hynny dyfod fy raid i ti, un ai oth fodd ai oth anfodd. Och, ebr finneu, ai rhaid i mi farw? Na raid, eb yr *Hunlle*, ni a'ch arbedwn hyn o dro. Ond trwy'ch cennad, ebr fi, nid arbedodd eich brawd Angeu nêb erioed etto, a ddygid iw ergyd ef, y gwr a aeth i ymaflyd cwymp âg Arglwydd y Bywyd ei hun, ond ychydig a 'nillodd ynte' ar yr orcheft honno. Cododd *Hunlle* ar y gair yma 'n ddigllon ac a 'madawodd. Hai, ebr *Cwsc*, tyrd ymaith, ni bydd i ti ddim edifeirwch o'th fiwrnai. Wel', ebr fi, na ddêl byth nôs i *Lan-gwsc*, ac na chaffo 'r *Hunlle* byth orphws ond ar flaen mynawyd oni ddygwch fi 'n ôl lle i'm cawfoch. Yna i ffordd yr aeth â mi tros elltydd a thrwy goedydd, tros foroedd a dyffrynoedd tros Geftyll a Thyrau, a Fonydd a Chreigiau, a ph'le y defcynnem ond wrth un o Byrth Merched *Belial*, o'r tu cefn i 'r *Ddinas ddihenydd*,

*Angeu* oedd yn ei gadw, ac hefyd wrth bôb drŵs ryw gant o amryw betheu wedi eu gadel yn llanaſtr, arwydd fod brŷs ar y rhai a aetheint trwodd. Uwchben un drŵs gwelwn *Newyn*, ac etto ar lawr yn ei ymyl byrſeu a chodeu llownion, a thryncieu wedi eu hoelio. Dyma, ebr ef, borth y *Cybyddion*. Pwy, ebr fi pioedd y carpieu yna? Cybyddion, eb ef, gan mwyaf: Ond mae yna rai 'n perthyn i *Segurwyr* a *Hwſmyntafod*, ac i eraill tlawd ymhôb peth ond yr Yſpryd, oedd well ganddynt newynu na gofyn. Yn y drŵs neſa 'r oedd Angeu *anwyd*, gyfeiryd â hwn clywn lawer *hyd-yd-ydyd-eian*; wrth y drŵs yma 'r oedd llawer o lyfreu, rhai pottieu a fflagenni, ymbell ffon a phaſtwn, rhai cwmpaſeu, a chyrt, a chêr Llongeu. F'aeth ffordd yma 'Scolheigion, ebr fi, do, ebr ynte, rai unic a dihelp a phell oddiwrth ymgeledd a'u carei; wedi dwyn hyd yn oed y dillad oddiarnynt. Dyna, ebr ef, (am y pottieu) weddillion y cymdeithion da, a fydd a'u traed yn fferri tan feincieu, tra bo eu penne 'n berwi gan ddiod a dwndwr: a'r petheu draw ſy 'n perthyn i drafaelwyr mynyddoedd eiryog, ac i Farſiandwyr y Gogleddfor. Y neſa oedd ſcerbwd teneu a elwid Angeu *Ofn*, gellid gweled trwy hwn nas medde 'r un *Galon*; ac wrth ddrŵs hwn hefyd godeu a chiſtieu, a chloieu, a cheſtyll.

lindys o bob cwrr. Pa fodd y daethoch, Syre, eb rhyw furgyn o Angeu bâch oedd yno? Yn wîr, Syr, ebr fi, nis gwn i mwy na chwitheu. Beth y gelwir chwi, ebr ynte? Gelwch fi yma fel y fynnoch yn eich gwlâd eich hun, ond fe 'm gelwid i gartre, *Bardd Cwsc*. Ar y gair, gwelwn gnap o henddyn gwargam a'i ddeupen fel miaren gen lawr, yn ymfythu ac yn edrych arnai 'n waeth na 'r Dieflyn côch, a chyn dywedyd gair,dyma fe 'n taflu penglog fawr heibio i'm pen i diolch i'r Garreg fedd a'm cyscododd. Llonydd, Syr, ertolwg, ebr fi, i Ddyn dieithr na fu yma 'rioed o'r blaen, ac ni ddaw byth pe cawn unwaith ben y ffordd adre. Mi wnâ 'i chwi gofio 'ch bod yma, eb ef, ac eilwaith âg ascwrn morddwyd gosododd arna 'i 'n gythreulig, a mineu 'n oscoi 'ngoreu. Beth, ebr fi, dyma wlâd anfoesol iawn i ddieithriaid, Oes yma un Ustus o heddwch? Heddwch! ebr ynte, pa heddwch a haedditi na adewit lonydd i rai yn eu beddi? Attolwg, Syr, ebr fi, a gawn ni wybod eich henw chwi, oblegid nis gwn i flino a neb o'r Wlâd yma 'rioed. Syre, ebr ynte, gwybyddwch mai Fi, ac nid chwi, yw'r *Bardd Cwsc*, ac a gês lonydd yma er's naw cant o flynyddoedd, gan bawb ond chychwi, ac a aeth i'm cynnyg i drachefn. Peidiwch ymrawd, ebr *Merddyn* oedd yn agos, na fyddwch ryboeth;

boeth; diolchwch iddo 'n hytrach am gadw coffadwriaeth parchus o'ch henw ar y Ddaiar. Yn wir, parch mawr, eb ynte, oddiwrth y fâth bembwl a hwn; A fedrwch wi, Syre, ganu ar y pedwar mesur ar hugain, a fedrwch wi ddwyn acheu *Gog* a *Magog*, ac acheu *Brutus ap Sylvius* hyd ganmlwydd cyn difa *Caer-Troia*? A fedrwch wi *frutio* pa bryd, a pheth a fydd diwedd y rhyfeloedd rhwng y Llew a'r Eryr, ac rhwng y Ddraig a'r Carw coch? ha! Hai, gadewch i minneu ofyn iddo gwestiwn, ebr un arall, oedd wrth fyddan fawr yn berwi, soc, soc, dygloc, dy-gloc. Tyrd yn nês, ebr ef, beth yw meddwl hyn?

*Mi fyddaf hyd Ddyddbrawd,*
*Ar wyneb daiarbrawd,*
*Ac ni wyddis beth yw nghnawd,*
*Ai Cîg ai Pyscawd.*

Dymunaf eich henw, Syr, ebr fi, fel i'ch attebwy 'n gymwysach. Myfi, ebr ef, yw *Taliessin* ben-beirdd y gorllewin, a dyna beth a'm difregwawd i. Nis gwn i, ebr finneu, beth a allei 'ch meddwl fod, o nid allei 'r *Fâd-felen* a ddifethodd *Faelgwn* Gwynedd, eich lladd chwitheu ar y feisdon a'ch rhannu rhwng y Brain a'r Pyscod. Taw ffŵl, ebr ef, brutio 'r oeddwn i am fy nwy *alwedigaeth*, Gwr o Gyfraith a Phrydydd: A

F ph'run

ni waeth genni lle 'r wyf: ni cheir byth *Wir* lle bo llawer o Feirdd, na *Thegwch* lle bo llawer o Gyfreithwyr, nês y caffer *Iechyd* lle bo llawer o Phyſygwyr. Yn hyn, dyma ryw ſwbach henllwyd bâch a glywſei fod yno *Ddyn bydol* yn ſyrthio wrth fy nhraed, ac yn wylo 'n hidl. Och o druan, ebr fi, beth wyti? Un ſy 'n cael gormod o gam yn y byd beunydd, ebr ynte, fe gai 'ch enaid chwi ſynny i mi uniondeb. Beth, ebr fi, y gelwir di? F' a'm gelwir i *Rhywun*, ebr ef, ac nid oes na llutteiaeth nac athrod, na chelwyddeu na chwedleu, i yrru rhai benben, nad arna 'i y bwrir y rhan fwya o honynt. Yn wir, medd un, mae hi 'n Ferch odiaeth, ac hi fu 'n eich canmol chwi wrth *rywun*, er bod *rhywun* mawr yn ei cheiſio hi. Mi a glywais *rywun*, medd y llall, yn cyfri naw cant o bunneu o ddlêd ar y ſtât honno. Gwelais *rywun* ddoe, medd y Cardottyn, a chadach brith fel moriwr a ddaethei â llong fawr o yd i'r borth neſa; ac felly pob cerpyn am llurgunia i iw ddrŵg ei hun. Rhai a'm geilw i 'n *Ffrind*; mi gês wybod gan Ffriend, medd un, nad oes ymryd hwn a hwn adel ffyrling iw Wraig, ac nad oes dim di-ddigrwydd rhyngthynt; rhai eraill a'm diyſtyrant i mhellach gan yn galw 'n *Frân*, fe ddywed *Brân* i mi fod yno gaſtieu drŵg meddant. Iè, rhai a'm geilw ar

henw parchediccach yn *Henwr*, etto nid eiddo fi hanner y coelion, a'r brutieu, a'r cynghorion a roir ar yr Henwr; ni pherais i erioed ddilyn yr henffordd, os byddei 'r newydd yn well, ac ni feddyliais i erioed warafun cyrchu i'r Eglwys wrth beri, *Na fynych dramwy lle bo mwya dy groeso*, na chant o'r fath. Ond *Rhywun* yw fy henw cyffredina i, ebr ef, hwnnw a gewchwi glywed fynychaf ymhob mawrddrwg; oblegid gofynnwch i un lle y dywedpwyd y mawr gelwydd gw'radwyddus, pwy a'i dyweid; yn wir, medd ynte, nis gwn i pwy, ond fo 'i dyweid *Rhywun* yn y cwmnhi, holi pawb o'r cwmpeini am y chwedl, fe'i clybu pawb gan *rywun*, ond nis gŵyr nêb gan bwy. Onid yw hyn yn gamm cywilyddus, ebr ef? Ertolwg, a hyspysfwchwi i bawb a glywoch yn fy henwi, na ddywedais i ddim o'r petheu hyn, ni ddyfeisiais ac ni adroddais i gelwydd erioed i wradwyddo nêb, nac un chwedl i yrru ceraint bendramwnwgl ai gilydd; nid wy 'n dyfod ar eu cyfyl, nis gwn i ddim o'u storiâu, na'u masnach, na'u cyfrinach felltigedig hwy, na wiw iddynt fwrw mo'u drygeu arna 'i, ond ar eu 'menyddieu llygredig eu hunain. Ar hyn, dyma Angeu bâch, un o scrifenyddion y Brenhin, yn gofyn i mi fy henw, ac yn peri i Meistr *Cwsc* fy nwyn i 'n ebrwydd ger bron y Brenin.

Gorfod

eb yr Angeu, a'm dygaſei i yno walch a gês i ynghanol *Tir Ango*, a ddaeth mor yſcafn-droed, na phrofodd eich mawrhydi dammeid o hono 'rioed. Pa fodd y gall hynny fod, ebr y Brenin, ac a ledodd ei hopran cyfled a daiargryn i'm llyncu. Ar hyn, mi a drois tan grynu at *Gwſc*; Myfi, ebr *Cwſc*, a'i dygais ef yma. Wel', ebr y Brenin cul ofnadwy er mwyn fy mrawd *Cwſc*, chwi ellwch fynd i droi 'ch traed am y tro yma; ond gwiliwch fi 'r tro neſa. Wedi iddo fod ennyd yn bwrw celanedd i'w geubal ddiwala, parodd roi dyfyn iw ddeiliaid, ac a ſymudodd o'r Allor i *Orſedd-fainc* echryſlawn dra-uchel, i fwrw 'r carcharorion newydd ddyfod. Mewn munyd, dyma 'r meirw fwy na rhi o fintei-oedd yn gwneud eu moes i'r Brenin, ac yn cymryd eu lle mewn trefn odiaeth. A'r Brenhin *Angeu* yn ei frenhinwiſc o Scarlad gloewgoch, ac hyd-ddi lunieu Gwragedd a Phlant yn wylo, a Gwŷr yn ochneidio; ac am ei ben gap dugoch tri-chonglog (a yrraſei ei gâr *Lucifer* yn anrheg iddo) ar ei gonglau ſcrif'naſid *Galar a griddfan a gwae* uwch ei ben 'r oedd myrdd o lunieu rhyfeloedd ar fôr a thîr, trefi'n lloſci, y ddaiar yn ymagor, a'r Dw'r-diluw; a than ei draed nid oedd ond coroneu a theyrnwiail yr holl Frenhinoedd a orchfygaſei fe 'riod. Ar ei law ddeheu

'r oedd

'r oedd *Tynged* yn eiſte, ac â golwg ddu ddèl yn darllen anferth Lyfr oedd o'i flaen: Ac ar y llaw aſwy 'r oedd henddyn a elwid *Amſer*, yn dylifo aneirif o edafedd *aur*, ac edafedd *arian*, a *chopr*, a *haiarn* lawer iawn, ac ymbell edy 'n prifio 'n well at ei diwedd a myrddiwn yn prifio 'n waeth; hyd yr edafedd yr oedd *orieu*, *diwrnodiau*, a *blynyddoedd*; a Thynged wrth ei Lyfr yn torri 'r edafedd *einioes*, ac yn egor dryſeu 'r Wàl derfyn rhwng y *ddau Fyd*. Ni chawſwn i fawr edrych na chlywn alw at y barr bedwar o ffidleriaid oedd newydd farw. Pa fodd, ebr Brenin y Dychryn, a daed gennych lawenydd na ddaliaſechwi o'r tu draw i'r *Agendor*, canys ni fu o'r tu yma i'r Cyfwng lawenydd erioed? Ni wnaethom ni, ebr un Cerddor, ddrwg i nêb erioed, ond eu gwneud yn llawen, a chymeryd yn diſtaw a gaem am ein poen. A gadwaſoch i nêb, ebr *Angeu*, i golli eu hamſer oddiwrth eu gorchwyl, neu o fynd i'r Eglwys, ha? Na ddo, ebr un arall, oddieithr bod ymbell Sul wedi gwaſanaeth yn y tafarn-dy tan dranoeth, neu amſer hâ mewn twmpath chwarae, ac yn wîr, yr oeddym ni 'n gariaduſach, ac yn lwccuſach am gyn'lleidfa na'r Perſon. Ffwrdd, ffwrdd â 'r rhain i Wlâd yr Anobaith, ebr y Brenin ofnadwy, rhwymwch y pedwar gefn-gefn, a theflwch hwy at eu cymeiriaid, i ddawnſio

ſio 'n droednoeth hyd aelwydydd gwynias, ac i rygnu fyth heb na *chlôd* na *chlera.* Y neſa a ddaeth at y barr, oedd rhyw Frenin agos i *Rufein :* Cyfod dy law garcharor, ebr un o'r Swyddogion: gobeithio, ebr hwnnw, fôd gennych beth gwell moes a ffafr i *Frenin.* Syre, ebr *Angeu* chwitheu ddylaſech ddàl y tu arall i'r Agendorr lle mae pawb yn Frenhinoedd; ond gwybyddwch nad oes o'r tu yma 'r un ond fy Hunan, ac un Brenin arall ſydd i wared obry, a chewch weled na phriſia hwnnw na minneu yn ngraddeu 'ch mawrhydi eithr yngraddeu 'ch drygioni, i gael cymmwyſo 'ch côſp at eich beieu, am hynny attebwch i'r holion. Syr, ebr ynte, gwybyddwch nad oes gennych ddim awdurdod i'm dàl, nac i'm holi: Mae genni faddeuant o'm hôll bechodeu tan law 'r *Pâp* ei hun, am i mi ei waſanaethu e'n ffyddlon, ynte roes i mi gynnwyſiad i fynd yn union i *Baradwys*, heb aros funud yn y purdan: Wrth hyn, dyma 'r Brenin a'r holl gegeu culion yn rhoi oer-yſcyrnygſa i geiſio dynwared *chwerthin*; a'r llall yn ddigllon wrth y chwerthin yn eu gorchymyn i ddangos iddo 'i ffordd. Taw ffŵl colledig, ebr *Angeu*, tu draw i'r Wàl o'th ôl y mae 'r *purdan*, canys yn dy fywyd y dylaſit ymburo: Ac ar y llaw ddeheu tu hwnt i'r Agendor yna, y mae *Paradwys.* Ac nid oes dim

dim ffordd boſſibl i ti ddianc weithian, na thros yr Agendor i *Baradwys*, na thrwy 'r Wàl-derfyn yn d' ôl i'r *Byd:* Canys, pe rhoit dy frenhiniaeth (lle ni feddi ddimmeu i roi) ni cheit gan borthor y dryſau yna, ſpio unwaith trwy dwll y clo. Y *Walddiadlam* y gelwir hon, canys pan ddeler unwaith trwyddi, yn iâch fyth ddychwelyd. Ond gan eich bod cymmaint yn llyfreu 'r Pâp, cewch fynd i gyweirio 'i wely ef at y Pâp oedd o'i flaen, ac yno cewch guſanu 'i fawd ef byth, ac yntẹ fawd *Lucifer.* Ar y gair, dyma bedwar o'r mân angheuod yn ei godi, ag ynte erbyn hyn yn crynu fel dail yr aethnen, ac ai cippiaſant fel y mêllt allan o'r golwg. Yn neſa at hwn daeth Mâb a Merch: Ef ạ faſei 'n *gydymaith da*, a hithe 'n Ferch *fwyn*, ne 'n rhwydd o'i chorph: Eithr galwyd hwy yno wrth eu henwau noethion, *Meddwyn* a *Phuttain.* Gobeithio, ebr y Meddwn, y câſi gennych beth ffafr, mi yrrais i chwi lawer yſclyfaeth dew mewn llifeiriant o gwrw da; a phan fethais yn lladd eraill, daethum fy hun yn 'wyllyſcar i'ch porthi. Trwy gennad y Cŵrt, nid hanner a yrrais i iddo, ebr y Butten, wedi eu hoffrwm yn ebyrth llôſc, yn Gîg rhôſt parod iw fwrdd. Hai, hai, ebr Angeu, er eich trachwanteu melltigedig eich hunain, ac nid i'm porthi i y gwnaed hyn oll: Rhwymwch y ddau, wyneb

un bai pennodol iw brofi i 'n herbyn. Hai, hai, ebr Angeu, cewch brofi 'n eich erbyn eich hunain: Goſodwch, ebr ef, y rhain ar fin y *Dibyn* ger bron Gorſedd *Cyfiawnder*, hwy a gânt yno uniondeb er nas gwnaethant. Yr oedd yn ôl etto ſaith o Garcharorion eraill, a rheiny 'n cadw 'r fâth drafferth a thrŵſt, rhai 'n gwenieithio, rhai 'n ymrincian, rhai 'n bygwth, rhai 'n cynghori, *&c.* Prin y galwaſid hwy at y barr, nad dyma 'r Llŷs oll wedi duo 'n ſaith hyllach nac or blaen, a grydwſt, a chyffro mawr o gylch yr Orſeddfainc a'r Angeu 'n laſach nac erioed. Erbyn ymorol un o gennadon *Lucifer* a ddaethei â Llythyr at Angeu, ynghylch y ſaith garcharor hyn ac ymhen ennyd parodd *Tynged* ddarllen y Llythyr ar oſteg, ac hyd yr wy 'n cofio dyma 'r geirieu:

> Lucifer *Brenin Brenhinoedd y Byd, Twyſog Annw'n a Phrif-Reolwr y Dyfnder at Ein naturiol Fâb, y galluoccaf Ddychrynadwy Frenin* Angeu, *cyfarch a goruchafiaeth ac yſpleddach dragwyddol.*

Yn gymaint a darfod i rai o'n cennadon cyflym ſy 'n waſtad allan ar Yſpî, yſpyſu i ni ddyfod gynneu i'ch Brenhinllys, ſaith Garcharor o'r ſaith rywogaeth ddihira 'n y Byd, a pherycla, a'ch bod chwi ar fedr eu hyſcwyd

munud, a pha 'r gledi ſydd arno rwan gyda ſaith er eu perycled? Pa ddelw bynnac, pe troent y llywodraeth uffernol tros ei cholyn, gyrr di hwynt yno 'n ſydyn, rhag ofn i mi gael gorchymyn i'th daro di 'n ddim cyn d'amſer. Am ei ſygythion *ef*, nid ŷnt ond celwyddog: Canys er bod dy ddiben di a'r henddyn draw (gan edrych ar *Amſer*) yn neſau o fewn ychydig ddalenneu 'n ſy Llyfr diſommiant i; Etto nid rhaid i ti un o'n ſoddi at *Lucifer*, er daed ſyddei gan bawb yno dy gael di, etto byth nis cânt: Oblegid mae 'r Creigieu dûr a a diemwnt tragwyddol ſy 'n toi Annwn yn rhy gedyrn o beth iw malurio. Ar hynny galwodd Angeu 'n gyffrous am un i ſgrifennu 'r atteb ſel hyn:

Angeu, *Frenin y Dychryniadau, Cŵncŵerŵr y Cŵncŵerŵyr at ein Parchediccaf Gâr a'n Cymydog* Lucifer *Brenin Hirnos, Penllyŵodraethŵr y Llynclyn Diphŵys annerch.*

Ar ddwfn yſtyried eich brenhinol ddymuniant hwn, gwelſom yn fuddiolach nid yn unic i'n Llywodraeth ni, eithr hefyd ich' Teyrnas helaeth chwitheu, yrru 'r carcharorion hyn bella, bai boſſibl, oddiwrth ddryſeu 'r Wal ddiadlam, rhag iw Sawyr drewedig ddychrynu 'r holl Ddinas *ddibe-*

*nydd*, fel na ddêl dyn byth i Dragwyddoldeb o'r tu yma i'r Agendor, ac felly ni chawn i fyth oeri ngholyn, na chwitheu ddim cwſmeriaeth rhwng Daiar ac Uffern. Eithr gadawaf i chwi eu barnu a'u bwrw i'r celloedd a welochwi gymmwyſaf a ſiccraf iddynt.

*O'm Brenhinllys iſa yn y* Goll-borth *fawr ar* Ddiſtryw. *Er blwyddyn adnewyddiad ſy Nheyrnas*, 1670.

Erbyn clywed hyn oll, 'r oeddwn inne 'n yſu am gael gwybod pa ryw bobl allei 'r *Seithnyn* hynny fod, a'r Diawliaid eu hunain yn eu harſwydo cymmaint. Ond cyn pen nemor, dyma Glarc y Goron yn eu galw hwy wrth eu henwau fel y canlyn. Meiſtr *Medleiwir*, aliàs *Bys ym hôb brywes*, 'roedd hwn mor chwidr a phryſur yn fforddio 'r lleill nad oedd e 'n cael mor ennyd i atteb troſto 'i hun nes i Angeu fygwth ei hollti a'i ſaeth. Yna Meiſtr *Enllibiwr*, aliàs *Gelyn y geirda*, dim atteb: mae e'n orchwylus glywed ei ditlau, eb y trydydd, nis gall aros mo'r llyſenwau. Ai tybied, eb yr *Enllibiwr*, nad oes *ditlau* i chwitheu? Gelwch, ebr ef, Meiſtr *Rhodreſwr* mel-dafod, *aliàs*, Llyfn y llwnc, *aliàs*, Gwên y gwenwyn. *Redi!* ebr Merch oedd yno tan ddangos y Rhodreſwr. O, ebr ynte, Madam

oedd ar wyneb *Tîr Ango*, o nid aeth hi 'n llwyd oleu, lle gwelwn i fyrdd fyrddiwn o ganhwylleu gleision, ac wrth y rheiny, cês olwg o hirbell ar fin y *Geulan ddiwaelod:* Ond os golwg dra echryslawn oedd honno, 'roedd yno uwchben olwg erchyllach na hitheu, sef, *Cyfiawnder* ar ei *Gorseddfainc* yn cadw drws Uffern, ar Frawdle neilltuol uwchben y safn i roi barn ar y Colledigion fel y delont. Gwelwn daflu 'r lleill bendramwnwgl, a *Checcryn* ynteu yn rhuthro 'i daflu ei hun tros yr ymyl ofnadwy, rhag edrych unwaith ar Gwrt *Cyfiawnder*, canys och! 'r oedd yno olwg rydost i wyneb euog. Nid oeddwn i ond yspio o *hirbell*, etto mi a welais fwy o erchylldod arswydus, nac a fedrai rwan ei draethu, nac a fedrais i'r pryd hynny ei oddef; canys, ymdrechodd a dychlammodd f' yspryd gan y dirfawr ddychryn, ac ymorchestodd mor egniol, oni thorrodd holl gloieu Cŵsc, a dychwelodd f' enaid iw chynnefin swyddeu: A bu lawen iawn genni 'ngweled fy hun etto yn ymŷsc y rhai *byw*; a bwriedais fyw well-well, gan fod yn esmwythach genni gan mlynedd o gystudd yn llwybreu sancteiddrwydd, na gorfod gweled cip arall ar erchylldod y Noson honno.

4.

Gwŷr yr Aur, *ond gwych y faï*
*Gael fyth fwynhau'ch meddianneu:*
*Mae'l y gwnewch 'i rhyngoch Rodd*
*A ryngo fodd i'r* Angeu.

5.

*Chwi rai* glân *o* bryd *a* gwedd,
*Sy 'n gwallio Corsedd-feincieu!*
*Mae'l y trwsiwch chwithe 'ch mîn*
*I ddallu 'r Brenin* Angeu.

6.

*Chwi 'r yscafna ar eich troed,*
*Yn ngrymmus Oed eich blodeu;*
*Ymwnewch i ffoi, a chwi gewch glôd*
*O diengwch rhag nôd* Angeu.

7.

*Mae clod i* Ddawns *a pheraidd* Gân,
*Am warrio aflan Ddrygeu:*
*Ond mawr na fedrei* Sioncrwydd *Ffrainc,*
*Rygyngu cainc rhag* Angeu.

8. *Chychwi*

8.

*Chychwi* Drafaelwyr *Môr a Thud,*
*A'r Byd i gyd a'i gyrreu:*
*Yn rhodd a welsoch mewn un lle,*
*Ryw gongol grê rhag* Angeu ?

9.

*Chwi 'Scolheigion a Gwyr-Llys,*
*Sy 'n deall megys duwieu!*
*A rowch 'i mysc eich dysc a'ch dawn,*
*Ryw gyngor iawn rhag* Angeu ?

10.

*Y Byd y Cnawd a'r Cythrael yw,*
*Prif-Elynion pob dyn byw:*
*Ac etto gwiliwch* Angeu Gawr,
*O'r* Gollborth fawr ar Ddestryw.

11.

*Sôn am* Angeu *nid oes brîs,*
*Ai* Gollborth, *a'i* Ddiangborth *Lys;*
*Ond beth pan elech di dy hun,*
*Oes fatter p'r un o'r ddeu-lys?*

12. *Nid*

hyllgref, etto byth ni oftwng eu cyweir, a'r Diawliaid yn eu hatteb, dyma 'ch croefo *byth bythoedd*. A phettei poffibl, gwaeth na'r boen oedd goegni a chwerwder y diawliaid yn eu *gwawdio*, ac yn eu *gwatwar*: A pheth oedd waethaf oll, oedd eu *Cydwybod* y rwan wedi cwbl ddeffro, ac yn eu llarpio hwy 'n waeth na mîl o'r Llewod uffernol. Ond wrth fynd rhagom ar i wared bellbell, a *phan bella gwaetha 'r gwerth*, yr olwg cynta, gwelwn Garchar ofnadwy, a Dynion lawer iawn tan fcwrs y Diawliaid yn griddfan yn felltigedig. Pwy yw rhain oll, ebr fi? Dyma, eb yr Angel, letty 'r *Gwae fi na bafwn!* Gwae fi na bafwn yn ymlanhau oddiwrth bob rhyw bechod mewn pryd! medd un; Gwae fi na bafwn yn credu ac yn edifarhau cyn dyfod yma, medd y llall. Nefa i gell yr *edifeirwch rhywyr* a'r *dadl wedi barn*, oedd Garchar yr *Oedwyr*, a fyddei bôb amfer yn *addo* gwellâu, heb fyth gwplâu. Pan ddarffo hyn o drafferth, medd un, mi a drô ddalen arall: Pan êl hyn o rwyftr heibio, mi â 'n Ddyn newydd etto, medd y llall. Ond pan ddarffo hynny, nid ydys nês, ceir rhyw rwyftr arall fyth, a hefyd rhag cychwyn tu a Phorth Sanćteiddrwydd, ac os cychwynid weithieu, ychydig a'u troe 'n ôl. Nefa i'r rhain, oedd Carchar *y Cam-hyder*, llawn o rai pan berid iddynt gynt ymadel

a'u

